# Datganiad argyfwng hinsawdd ein Bwrdd

Cyhoeddwyd gyntaf: 28 Tachwedd 2023

Diweddariad olaf: 4 Rhagfyr 2023

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i http://cynnwys.gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/ein-canlyniadau/ein-hymrwymiad-i-fod-yn-sero-net-o-ran-carbon-erbyn-2030/datganiad-argyfwng-hinsawdd-ein-bwrdd am y fersiwn diweddaraf.

Rydyn ni, Bwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru, yn cydnabod bod yr argyfwng hinsawdd yn achosi bygythiad sylweddol i iechyd, llesiant, diogelwch a ffyniant ein cymunedau. Rydyn ni'n poeni'n fawr am ei effaith drychinebus bosibl ar ddyfodol ein pobl a'n planed.

Fel sefydliad sy'n ymroi i hyrwyddo gofal cymdeithasol yng Nghymru, rydyn ni'n cydnabod ein cyfrifoldeb i fynd i'r afael â her frys yr argyfwng hinsawdd.

Rydyn ni'n ymrwymo i gymryd camau pendant ar unwaith i leihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr a chefnogi Addewid Sero Net 2030 Llywodraeth Cymru ar gyfer sefydliadau'r sector cyhoeddus.

Wrth gyhoeddi argyfwng hinsawdd, byddwn ni'n:

- datblygu 'Cynllun gweithredu ar yr hinsawdd' cynhwysfawr sy'n amlinellu targedau uchelgeisiol a mesuradwy i leihau ein hôl troed carbon ac yn meithrin diwylliant o gynaliadwyedd ar draws ein sefydliad
- rhoi arferion gorau ar waith fel y gallwn fod mor effeithlon â phosibl â'n hadnoddau, lleihau ein gwastraff a bod â chaffaeliad cynaliadwy ar draws ein holl weithrediadau, gan gynnwys ein cadwyn gyflenwi
- annog ac yn cefnogi ein staff, partneriaid a rhanddeiliaid i fabwysiadu arferion mwy cynaliadwy yn eu bywydau personol a phroffesiynol
- cydweithio â sefydliadau eraill, arbenigwyr ac arweinwyr i hyrwyddo mabwysiadau camau gweithredu ar yr hinsawdd trwy rannu gwybodaeth, arbenigedd ac adnoddau, a chynyddu ein heffaith
- siarad o blaid newidiadau polisi ar lefel leol a chenedlaethol i gyflymu'r trawsnewid i ddyfodol carbon isel, cynaliadwy a chydnerth ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru

- cydnabod effaith yr argyfwng hinsawdd yn ein cynlluniau a'n polisïau, ac yn cynllunio ar gyfer ymaddasu i newid hinsawdd, yn ogystal ag atal a lleihau ein

hallyriadau carbon, er mwyn cydnabod y rhagamcanion cyfredol ar gyfer yr hinsawdd.

Rydyn ni’n cydnabod y bydd cyflawni ein nodau yn ymwneud â’r hinsawdd yn mynnu ymroddiad, arloesi a dyfalbarhad. Ond rydyn ni’n ymrwymo i chwarae ein rhan mewn creu dyfodol cynaliadwy a theg i bawb.

# Ein cynllun gweithredu carbon sero net 2030

Cyhoeddwyd gyntaf: 28 Tachwedd 2023

Diweddariad olaf: 4 Rhagfyr 2023

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i http://cynnwys.gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/ein-canlyniadau/ein-hymrwymiad-i-fod-yn-sero-net-o-ran-carbon-erbyn-2030/ein-cynllun-gweithredu-carbon-sero-net-2030 am y fersiwn diweddaraf.

Rydyn ni wedi datblygu *Ein cynllun gweithredu carbon sero net 2030* i'n helpu i leihau ôl troed carbon ein gweithgareddau a nodi sut gallwn ni gefnogi Llywodraeth Cymru i wireddu ei 'Trywydd datgarboneiddio gofal cymdeithasol tuag at sero net erbyn 2030'.

Mae'r cynllun yn amlinellu sut byddwn ni'n:

- datgarboneiddio neu'n lleihau ôl troed carbon ein gweithgareddau a sut byddwn ni'n cyfrifo ein hôl troed carbon i'n helpu i fonitro ein cynnydd tuag at sero net

- cydweithio â sefydliadau eraill, yn dylanwadu arnynt ac yn eu cefnogi i'w helpu i feddwl am sut gallant ddatgarboneiddio neu leihau ôl troed carbon eu gweithgareddau

- addysgu ac yn dylanwadu ar ymddygiad ein staff a'r sector gofal cymdeithasol ehangach trwy feddwl am ddatgarboneiddio ar bob cam wrth gynllunio a darparu ein gwasanaethau, a thrwy hyrwyddo arferion datgarboneiddio da ac arloesol.

Mae gan ein cynllun gweithredu saith thema:

- strategaeth
- polisi
- caffael
- rheoli ein cyfleusterau
- gwybodaeth
- cydweithio a mentrau i gefnogi'r sector gofal cymdeithasol
- ymddygiadau personol.

# Ein hôl troed carbon ar gyfer y flwyddyn ariannol Ebrill 2022 i Fawrth 2023

Cyhoeddwyd gyntaf: 28 Tachwedd 2023

Diweddariad olaf: 4 Rhagfyr 2023

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i http://cynnwys.gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/ein-canlyniadau/ein-hymrwymiad-i-fod-yn-sero-net-o-ran-carbon-erbyn-2030/ein-hôl-troed-carbon-ar-gyfer-y-flwyddyn-ariannol-ebrill-2022-i-fawrth-2023 am y fersiwn diweddaraf.

Ein hôl troed carbon ar gyfer y flwyddyn oedd **870,107 KgCO2e**.

Roedd hyn yn gynnydd o **11.7 y cant** ers y flwyddyn flaenorol, pan oedd ein hôl troed carbon yn **778,820 KgCO2e** ac mae'n adlewyrchu ailgychwyn gweithgarwch ar ôl pandemig Covid-19.

Rydyn ni’n parhau ar y trywydd iawn o gyflawni ein nod tymor hir sero net erbyn 2030, gan ein bod wedi sicrhau **gostyngiad o 48 y cant** o gymharu â'n blwyddyn sylfaenol, a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020.

## Pam mae ein hôl troed carbon wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn?

Dangos

Y ddau brif reswm pam y cynyddodd ein hôl troed carbon yn 2022 i 2023 yw:

- mae nifer ein staff wedi cynyddu **o 136 o weithwyr** ym mis Mawrth 2022 i **201 o weithwyr** ym mis Mawrth 2023**.**

  Rydyn ni’n defnyddio ffactorau meincnod Llywodraeth Cymru ar gyfer rhai categorïau o wariant ac yn lluosi'r rhain â'r nifer o weithwyr sydd gennym ni i amcangyfrif ein hallyriadau carbon.

- ar ôl i ni ailagor ein swyddfa ar ôl pandemig Covid-19, mae arferion cymudo ein staff a'n defnydd o swyddfeydd wedi cynyddu.

## Beth ydyn ni wedi'i wneud i leihau ein hôl troed carbon?

Dangos

Rydyn ni wedi symud y rhan fwyaf o'n systemau TGCh i'r cwmwl, felly rydyn ni’n fwy effeithlon o ran ynni a charbon.

Rydyn ni wedi mabwysiadu yn ffurfiol ffordd hybrid o weithio fel y gall staff barhau i weithio gartref, a lleihau'r angen i gymudo.

Rydyn ni wedi mabwysiadu ffyrdd newydd o weithio, sy'n golygu y gall pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau gael mynediad i'n holl wasanaethau ar-lein heb fod angen iddyn nhw fynd i'n swyddfeydd.

Rydyn ni hefyd wedi cynnwys datgarboneiddio a chynaliadwyedd amgylcheddol yn ein prosesau caffael a grantiau Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (SCWWDP).

Rydyn ni nawr yn gofyn i ddarpar gyflenwyr a buddiolwyr beth yw eu hagwedd at ddatgarboneiddio a sut maen nhw’n ei ystyried.

## Beth rydyn ni'n ei wneud i helpu eraill i leihau eu hôl troed carbon?

Dangos

Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu eu cynlluniau datgarboneiddio ar gyfer y sector gofal cymdeithasol.

Rydyn ni’n llwyr gefnogi'r angen i gynnwys gofynion ar gyfer adrodd am garbon yn y Fframwaith cenedlaethol newydd ar gyfer comisiynu gofal a chymorth sy'n cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru.

Fel rhan o'n rôl yn arwain y maes gofal cymdeithasol, rydyn ni hefyd yn gweithio i ddylanwadu a chefnogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i sicrhau

bod sefydliadau'n ystyried cynaliadwyedd amgylcheddol pan fyddan nhw’n gwneud penderfyniadau ac yn datblygu eu polisïau a'u strategaethau.

## Ystadegau ein hôl troed carbon

Mae’r ystadegau wedi eu crynhoi isod a’u cymharu â'r flwyddyn flaenorol.

### Ein defnydd o ynni

Yn 2022 i 2023, roedd ein hallyriadau oherwydd defnydd o ynni yn:

- **641,635 KgCO2e o drydan** (i fyny 7.3 y cant o 641,635 KgCO2e)
- **31,761 KgCO2e o nwy** (i lawr 12.2 y cant o 36,190 KgCO2e).

### Cludiant staff a gweithio gartref

Hon yw’r flwyddyn gyntaf ers i ni ailagor ein swyddfeydd i'r holl staff ar ôl pandemig Covid-19.

Er bod y cynnydd canrannol a welir yma yn fawr, mae ein hallyriadau carbon cyffredinol yn parhau i fod yn fach iawn.

Rydyn ni’n arolygu ein staff bob blwyddyn i ddarganfod sut a pha mor aml y maen nhw’n teithio i'n swyddfeydd. Rydyn ni’n defnyddio ein system dreuliau i ddadansoddi ein teithiau busnes.

Yn ystod y flwyddyn, roedd ein:

- hallyriadau teithio busnes yn **11,664 KgCO2e** (i fyny 468 y cant o 2,491 KgCO2e)
- allyriadau cymudo yn **14,498 KgCO2e** (i fyny 188 y cant o 7,701 KgCO2e)
- allyriadau gweithio gartref yn **121,298 KgCO2e** (i fyny 222 y cant o 84,617 KgCO2e).

## Yr adnoddau rydyn ni'n eu defnyddio

Rydyn ni'n gwahanu ac yn ailgylchu ein gwastraff swyddfa, ond ni allwn ei fesur. Felly rydyn ni wedi cyfrifo ein hôl troed carbon yn y maes hwn yn seiliedig ar nifer ein staff a thrwy gymhwyso ffactorau meincnod.

Yn 2022 i 2023, fe ddefnyddion ni:

- **1,522 KgCO2e o waredu gwastraff** (i lawr 33 y cant o 2,284 KgCO2e)
- **47,729 KgCO2e o ddefnydd dŵr** (i fyny 12 y cant o 42,976 KgCO2e).

## Ein cadwyn gyflenwi

Rydyn ni wedi amcangyfrif ein hallyriadau cadwyn gyflenwi gan ddefnyddio ffactorau meincnod sy'n seiliedig ar y swm a wariwn:

- **TGCh: 279,457 KgCO2e** (i lawr 12 y cant o 315,863 KgCO2e)
- **gwasanaethau swyddfa: 51,265 KgCO2e** (i fyny 65 y cant o 31,020 KgCO2e)
- **dodrefn ac offer: 3,480 KgCO2e** (i lawr 12 y cant o 4,439 KgCO2e)
- **cyfathrebu: 97,470 KgCO2e** (cynnydd o 44 y cant o 67,466 KgCO2e)
- **gwasanaethau cyngor proffesiynol: 213,162 KgCO2e** (i lawr 51 y cant o 438,354 KgCO2e)
- **gweithgareddau adnoddau dynol: 366 KgCO2e** (i lawr 99 y cant o 25,429 KgCO2e)
- **bwyd a diod: 1,951 KgCO2e** (i fyny 3,982 y cant o 49 KgCO2e)

- **gwasanaethau adeiladu: 20,046 $KgCO_2e$** (dim newid).

# Ein camau nesaf

Cyhoeddwyd gyntaf: 28 Tachwedd 2023

Diweddariad olaf: 4 Rhagfyr 2023

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i http://cynnwys.gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/ein-canlyniadau/ein-hymrwymiad-i-fod-yn-sero-net-o-ran-carbon-erbyn-2030/ein-camau-nesaf am y fersiwn diweddaraf.

Rydyn ni’n cynnwys datgarboneiddio a chynaliadwyedd amgylcheddol yn ein cynlluniau gwaith. Dyma rai o'n cynlluniau ar gyfer 2023 i 2024:

## Ein defnydd o ynni a gofod swyddfa

O fis Gorffennaf 2023, bydd 100 y cant o’n holl drydan yn dod o dariffau ynni adnewyddadwy.

O fis Ebrill 2024, byddwn ni’n lleihau gofod ein swyddfa 50 y cant gan adlewyrchu llwyddiant ein polisi gweithio hybrid.

## Ein teithio a gwrthbwyso carbon

O fis Gorffennaf 2023, bydd ein polisi teithio staff newydd yn blaenoriaethu dulliau teithio mwy gwyrdd. Bydd ein hôl troed carbon teithio a chynhaliaeth anochel yn cael eu gwrthbwyso drwy brynu credydau carbon i gefnogi coetiroedd Cymru.

Ym mis Medi 2023, byddwn ni’n lansio cynllun prydlesu ceir di-garbon ar gyfer staff.

## Ein cadwyn gyflenwi

Byddwn ni’n gorffen symud ein holl systemau TGCh i'r cwmwl ac yn lleihau ein defnydd o gynghorwyr proffesiynol allanol.

# Ein gwaith ymchwil

Er mwyn cefnogi'r sector gofal cymdeithasol gyda datgarboneiddio a darparu tystiolaeth a data ynghylch sut mae'r sector yn ymateb i'r argyfwng hinsawdd, rydyn ni’n edrych ar bynciau ymchwil posibl yn y maes hwn.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- addasu hinsawdd mewn gofal cymdeithasol
- sut mae gofal cymdeithasol yn ymateb i heriau newid hinsawdd.

# Deddfwriaeth a pholisi carbon niwtral yng Nghymru

Cyhoeddwyd gyntaf: 28 Tachwedd 2023

Diweddariad olaf: 4 Rhagfyr 2023

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i http://cynnwys.gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/ein-canlyniadau/ein-hymrwymiad-i-fod-yn-sero-net-o-ran-carbon-erbyn-2030/deddfwriaeth-a-pholisi-carbon-niwtral-yng-nghymru am y fersiwn diweddaraf.

Mae nifer o gyfreithiau a pholisïau sy'n cefnogi nod Llywodraeth Cymru i fod yn garbon niwtral erbyn 2050.

Dyma ganllaw i rai o'r deddfau a'r polisïau hyn:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: O dan y Ddeddf, rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried effaith hirdymor y penderfyniadau a wnânt ar genedlaethau'r dyfodol. Byddwn ni'n atebol i'r Ddeddf o fis Ebrill 2024. Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi nodi eu gweledigaeth hirdymor a'r dull y maen nhw'n bwriadu ei gymryd dros y saith mlynedd nesaf yn Cymru Can. Mae'r cynllun yn cynnwys sicrhau bod holl gyrff cyhoeddus Cymru yn cyflawni eu nodau sero net a'u nodau cadarnhaol i natur erbyn 2030
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016: O dan y Ddeddf hon, rhaid i Weinidogion Cymru osod targedau ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a phennu cyllidebau carbon.
- Rheoliadau Newid Hinsawdd (Cyllidebau Carbon) (Cymru) 2018: Mae'r rheoliadau hyn yn nodi'r allyriadau net uchaf yng Nghymru ar gyfer y cyfnodau 2016 i 2020 a 2021 i 2025.
- Cymru Sero Net: Ym mis Mawrth 2021, cytunodd y Senedd y byddai Cymru'n dod yn garbon niwtral erbyn 2050. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi ei chynlluniau ar gyfer sector cyhoeddus carbon sero net yng Nghymru erbyn 2030.